| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Cynllunio |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 14 Mai 2025 |
| **Aelod Arweiniol** | Y Cynghorydd Alan James – Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Emlyn Gwynedd Jones - Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **Awdur yr Adroddiad** | Bethan Morris, Swyddog Cynllunio |
| **Teitl** | **Y TAN 15 newydd - Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am fersiwn newydd Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol, a gyhoeddwyd ar 31 Mawrth 2025.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi gwybodaeth am y canllawiau cynllunio cenedlaethol newydd sydd ar waith mewn perthynas â pherygl llifogydd ac erydu arfordirol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) yn ofynion cenedlaethol sy'n rhoi arweiniad ar leoli ac asesu datblygiadau newydd. Mae TAN 15 yn rhoi arweiniad i ddatblygiadau o ran perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

4.1 Bwriad y TAN 15 newydd yw lleihau'r perygl o lifogydd a galluogi datblygiad cadarn mewn ardaloedd lle mae llai o berygl o lifogydd. Mae erydu arfordirol bellach wedi'i gynnwys o fewn TAN 15; yn flaenorol, ymdriniwyd â hyn ar wahân o dan TAN 14. Dylai ei gynnwys helpu amlygu'r peryglon sy'n gysylltiedig ag erydu arfordirol. Mae rhagfynegiadau am newid yn yr hinsawdd wedi'u hymgorffori yn y perygl llifogydd. Mae'r arweiniad yn fwy cyfyngol o ran lle caniateir datblygu, ac mae mwy o bwyslais ar Gynlluniau Datblygu. Mae hefyd yn rhoi dyletswydd sylweddol ar Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol ac Awdurdodau Cynllunio Lleol i gynnal asesiad o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr bychain a sicrhau nad oes mwy o risg yn lleol o lifogydd yn sgil cyrff dŵr o'r fath.

4.2. Un newid pwysig yw cyflwyniad pedwar parth perygl llifogydd (Parthau 1, 2, 3 a pharthau a amddiffynnir TAN 15) sy'n disodli'r categorïau perygl llifogydd blaenorol (A, B, C1 a C2).

4.3. Caiff perygl llifogydd A, lle mae risg isel iawn, ei ddisodli gan Barth 1, ond nid oes cymhariaeth uniongyrchol i'r Parthau eraill. Dangosir y categorïau blaenorol ar y Map Cyngor Datblygu. Caiff y Parthau newydd eu cynnwys ar Fap Llifogydd Cymru Gyfan sy'n rhoi ystyriaeth i ragfynegiadau o ran newid yn yr hinsawdd ac yn dangos risgiau llifogydd dŵr wyneb y mae'n rhaid ei ystyried hefyd. Mae Map Llifogydd Cymru ar gyfer Cynllunio a'i barthau llifogydd wedi'u dylunio i weithredu fel sbardun ar gyfer y profion cyfiawnhad a derbynioldeb.

4.4. Mae'r TAN 15 newydd yn dod i rym ar unwaith ar 31 Mawrth 2025. Rhaid i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd bellach ddilyn gofynion y TAN 15 newydd. Dim ond ceisiadau cynllunio oedd eisoes wedi cael eu cofrestru cyn 31 Mawrth 2025 sy'n parhau i ddod o dan ddarpariaethau TAN 15 2024 a TAN 14 1998 ac wedi'u seilio ar y mapiau llifogydd hŷn, sef y Mapiau Cyngor Datblygu (DAM).

4.5. Mae'r adroddiad i'r Grŵp Cynllunio Strategol ar 24 Ebrill 2025 yn rhoi mwy o wybodaeth am y newidiadau yn y TAN 15 newydd, ac mae i'w weld ynghlwm yn Atodiad 1.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Bydd TAN 15 yn effeithio ar gyfeiriad datblygiadau yng Nghymru yn y dyfodol, ac felly ar gyflawni Blaenoriaethau Corfforaethol a Strategaethau'r Cyngor yn y

dyfodol, fel y Strategaeth Tai a Digartrefedd a Chynlluniau Datblygu Lleol y dyfodol.

5.2. Drwy bennu cyfeiriad polisïau a dyraniadau tir y CDLl Newydd 2018 i 2033, bydd TAN 15 yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at nod y Cyngor i ddod yn Ddi-garbon Net ac Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Adroddiad yw hwn sy'n rhoi gwybodaeth am newidiadau i bolisi cenedlaethol y dylai gwasanaethau eraill a'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol eu hystyried, ond nid yw'r adroddiad hwn ynddo'i hun yn arwain at gostau ychwanegol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les a pha newidiadau sydd wedi, neu a fydd yn cael eu cyflwyno i'r prosiect neu'r ymagwedd o ganlyniad i'r asesiad?

7.1. Ni chynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Les am mai adroddiad gwybodaeth yw hwn, ac nad yw'n ceisio penderfyniad ar bolisi, strategaeth, na rhaglen y Cyngor.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Trafodwyd y TAN 15 newydd yn y Grŵp Cynllunio Strategol ar 24 Ebrill 2025 a dosbarthwyd yr adroddiad ar gyfer y Grŵp Cynllunio Strategol i'r holl aelodau ar 17 Ebrill 2025.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid yw darparu'r adroddiad gwybodaeth hwn yn arwain at unrhyw oblygiadau cyllidebol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Amherthnasol.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

11.3. Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig